W. 2
2218 963 (6) TJ 681 (Sal)
UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

# *CAN YSGRYTHYROL,*

o

## ATTEBIAD I'R TAENELLWYR BABANOD,

Mewn Traethiadau a ysgrifenasant, mewn dull o enllib a geiriau celyd am y bobl sy 'n myned yn ol gair Duw a'u cydwybodau dan yr enw Bedyddwyr, trwy gymmeryd Iesu Crist yn siampl, a'i air yn rheol yn mhob ymarferiad crefyddol; ac nid hên draddodiadau cyfeiliornus Pabyddiaeth.

Ti a bwyswyd yn y clorianau, ac a'th gaed yn brin.
DAN. v. 27.

Edrychwch na b'o neb yn eich aurheithio trwy philosophi a gwâg dwyll, yn ol traddodiad dynion, yn ol egwyddorion y byd, ac nid yn ol Crist........ ........................COL. ii. 18.
Edr. GAL. i. 14. a iv. 9. MAT. xv. 3. 1 COR. iii. 10---15.
PHIL. i. 15. a iv. 8. JER. xxix. 8. HEB. xiii. 9.

Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai sydd yn peri anghydfod a rhwystrau, yn erbyn yr athrawiaeth a ddysgssoch chwi; a chiliwch oddi wrthynt...RHUF. xvi. 17.
Edr. 2 IOAN i. 9, 10, 11.

*Pe clywn i fod Cenfigen, aflawen, wael ei drych,*
*Ond unwaith wedi marw, cyd-unwn ganu ei chlych:*
*Mi ddeuwn idd ei hangladd, heb ddeigryn ar fy ngrudd.*
*Wel'd dodi'r hên fileines yn isel yn y priad.*

ABERYSTWYTH: Argraffwyd gan James a Williams, dros D. A.---1810.---[Prîs CEINIOG.]

1 DARLLENAIS waith athrawon, 2 Bren.
Eu golwg nid oedd glîr, [19. 14.
Am *Babaidd Fedydd Baban,* Joel 3. 3.
Ni ddywedent ddim mo'r gwîr; Jer. 9. 5.
Maent wedi codi arfeu, 3 Ioan 1. 10.
A cheisio bod yn ben,

Ni raid i ni ddim ofni
  Un gŵr â chleddyf pren. 2 Sam. 23. 10.

2 Wrth fyn'd i adeiladu, Luc 14.
  Mae 'n gofyn bwrw'r draul, [28, 29.
Ac edrych yn ofalus
  Pa fodd mae gyda'r sail;
Fe brofir pob rhyw orchwyl, 1 Cor. 3.
  Meddyliwn bob yr un, [10, 11, 12.
Fe losgir pob gwaith dynol,
  Fel gwair a sofl grin.

3 Attolwg, y taenellwyr,
  A ddewch chwi i'r glorian glîr, Diar. 30. 5.
Mewn tawel ysbryd syml,
  I mewn i'r Bibl pur; Esa. 8. 20.
Lle cawn ni reol union,
  Heb ŵyro ar un llaw, Diar. 8. 8.
A ddalio 'n bwysau cywir
  Ddiwrnod mawr a ddaw. 1 Cor. 3. 15.

4 Pa'm y'ch chwi, fobl, yn gŵyro Jer. 23. 36.
  Oddiwith efengyl bur?
On'd lladron ac yspeilwyr Ioan 10. 8.
  Sy 'n dringo dros y mur,
A gado 'r llwybr goleu, 2 Cor. 12. 18.
  A'i gamrau union tlws,
A dringo trwy 'r ffenestri, Ioan 10. 9.
  A phasio heibio 'r drws?

5 Attebwch, wyr, yn syml, Diar. 15. 1.
  O'r 'fengyl bur ddinag,
Nid twyllo eich darllenydd Diar. 12. 17.
  A rhyw hanesion gwâg;
Ond pur wirionedd cadarn, Ps. 100. 5.
  Heb ŵyro ar un llaw,
A ddalio yn y glorian Job 31. 6.
  Yn bwysau 'r dydd a ddaw. Ps. 62. 6.

6 Mae 'n gofyn i drafaelwr,
  Rhag ofn garw hin, Esa. 27. 8.

I 'mofyn cadarn sylfaen,
Yn lle ffyn baglau crin; Esa. 36. 6.
Gwell yw sylfaenu 'n gynnil,
Wrth reol Bibl Duw, Gal. 6. 16.
Wrth ado 'r rheol hòno,
Ca'dd lawer esgyrn briw. Ps. 141. 7.

7 Os ni yw 'r Ail-fedyddwyr, Mat. 21. 25,
Pwy oedd y cynta' erio'd? [26, 27.
Da gennyf glywed hyny,
Gan ryw un dan y rhôd;
Rhaid myn'd at y taenellwr,
A gofyn iddo fe,
Os methiff roddi atteb, Luc. 7. 30.
Fe ddarfu am y ple. Act. 8. 12.

8 Gŵr chwannog iawn i gweril,
Yn ieuangc iawn ei o'd, Col. 3. 13.
A'i lefel at fedyddwyr,
Ac atynt hwy mae 'i nôd; Galar. 3. 12.
Mae ei ddannedd ef yn llymion,
A'i dafod ef yn hîr, Iago 1. 26.
Pe bae e'n hŵy o lawer,
Mae etto heb ddwëyd y gwîr. Jer. 9. 5.

9 Gwilied holl daenellwyr, 2 Cor. 4. 2, 3.
Rhag cadw 'r gwîr ynghudd,
A theithio ar draeth pwdr,
Heb gael eu traed yn rhydd; Mat. 7. 26.
Trueni fod gwyr cyfrwys
Yn awr mor frwd eu zel, Rhuf. 10; 2.
Dros hên draddodiad dynol,
A chadw 'r gwîr yn gel. Col. 2. 8.

10 Galarus iawn yw gweled 2 Tim. 4. 3, 4.
Yn un lle, ŵr neu fâb,
Yn sefyll mor ddig'wilydd,
Dros fedydd tlawd y pab;
Aed hwn yn ol i Rufain, Dat. 18. 21.
Y lle daeth allan gynt,

Nid yw ond plyfyn ysgafn, Job 21. 18.
Aiff gyda 'r awel wynt. Ps. 78, 39.

11 Ystyriwch hyn, o brysur,
Chwi oll daenellwyr plant, Deut. 11. 2.
Pe baech chwi 'n gwneuthur llyfrau,
Rifedi lawer cant; Preg. 12. 12.
Ni fyddai rhai 'n ond sothach,
Ac afiach o bob rhyw Tit. 2. 1, 2.
Heb fawr o'r gwîr yn gyson,
Wrth reol Bibl Duw. 1 Tim. 4. 16.

12 Chwi ewch at yr enwaediad, Gal. 5. 2.
Cyfammod Abraham,
I bledio bedydd baban, Act. 15. 1.
Nid yw ond rheswm cam;
Gwneuthur ffol yn ffolach, Diar. 16. 22.
A'r dall yn ddallach yw,
I geisio haeru un peth, Phil. 4. 5.
Na cheir e'n Mibl Duw. Mat. 15. 6.

13 Nid yw 'ch rhesymau tywyll
I gyd ond twyll â 'sgil, 2 Cor. 4. 2.
Fe ddichon un eich atteb,
Pe baech chwi lawer mil; Ps. 3. 6.
Ni cheisiwn ond y Bibl,
Mae hwnw 'n ddigon byth, 2 Cor. 12. 9.
Ni cheir mo fedydd baban,
Onid ydyw hyn yn chwith! 2 Tim. 2. 9.

14 Chwi haerwch yn ddig'wilydd, 1 Tim. 1. 7.
A llawer iawn o 'stwr,
Am Lydia, fenyw dduwiol, Act. 16. 14.
Fod iddi blant a gŵr;
Rhyfeddol yw 'r dichellion, Diar. 7. 10.
I dwyllo dynolryw,
I ddywedyd neu 'sgrifenu Ps. 35. 20.
Y peth na ddywedodd Duw. 1 Ioan 4. 1.

15 Dwys gadarn, rai dysgedig,
Ni ddywedant ddim mo 'r gwîr, Lef. 19. 32.

B'le mae 'ch agoriad auraidd
  I ddadcloi cloion dur? Can. 4. 12.
Os gŵr a phlant oedd iddi
  Attebwch i mi 'n *blain* Diar. 15. 1.
I'r goleu â'r dirgelwch, Esa. 41. 28.
  Mynegwch enwau rhai 'n. Col. 3. 6.

16 Yr y'ch chwi'r gau athrawon, Rhuf. 2. 20.
  Yn achwyn arnom ni,
O eisiau ein bod ni 'n llawen, Preg. 3. 12.
  Wrth lais eich telyn chwi;
Fe ddichon gwag resymau, Job 11. 12.
  Foddloni ambell un,
A gwnëyd y ffol yn llawen Diar. 1. 31.
  Os yfir peth o'i wîn. a 23. 31, 32.

17 Mae llawer rheswm cibddall Rhuf. 1. 21, [25.
  I dwyllo'r anghall ddyn,
Rhyw 'chydig o wirionedd,
  Anwiredd wrth ei glyn;
Cymmysgu rhai 'n â'u gilydd
  I dwyllo dynolryw,
Mae hon yn ddichell enbyd, Ps. 105. 25.
  A chroes i feddwl Duw. Diar. 14. 17.

18 Pe baed yn gwneuthur llyfrau
  I lanw hyn o fyd, Preg. 12. 12.
I bledio bedydd bâban,
  Ni fyddai ond twyll i gyd:
Y tŷ sydd ar y tywod
  I gyd a gwymp i lawr, Mat. 7. 27.
Y gwîr a ddâl yn gadarn
  Yn nydd y storom fawr. 1 Cor. 3. 10.

19 Rhyw bentwr mawr sydd genych, 2 Tim. [4. 3.
  O hên gasgliadau crin,
A losgir yn y diwedd Heb. 16. 18.
  Fel tân yn difa llîn;
Pysgota llynoedd lleidiog, Jer. 16. 16.
  Ac nid y gair ei hun,

Gwell genym dammaid iachus, Diar. 16. 1.
Na'u pysgod drewllyd blin. a 15. 17.

20 Chwi wnewch aelodau eglwys
O blant bythefnos oed, 1 Sam. 1. 22.
Na cherddodd gam o'r ddaear,
Na ddywedodd air erioed; Rhuf. 9. 11.
Nid yw y fath ddefnyddiau
Ond digon gwan a main, Ps. 119. 16.
Mae'n dda fod cryfach muriau
I Sion nâg yw rhai'n. Galar. 2. 18.

21 Os gall un sant genedlu, Gen. 25. 22.
Sant arall yn y bru,
Ystyried pob darllenydd, Marc 13. 14.
Nad yw ond celwydd dû;
Pa fodd na all'sai Noa, Gen. 9. 24.
Rhowch atteb im' pa ham
Na bu'sai fe'n cenedlu Lef. 10. 1.
Duwiolach mâb nâ Cham. Gal. 4. 24.

22 Rhyfeddu'r wyf, a synu
O'm blaen ac ar fy ol, Ps. 143. 4.
Fod un dyn â phump synwyr
Yn siarad peth mor ffol; Diar. 27. 22.
Chwi oll ddarllenwyr Cymru,
Ystyriwch bob yr un, Deut. 32. 1.
Pwy gristion allai feddwl
Ei fod yn berchen un. Diar. 11. 12.

23 Rhyfedd yw'r ymdd'rysu, 2 Pedr 1. 9.
Mewn tywyllwch lawer tro,
Fel dyn f'ai â'i ysbryd Deut. 2. 30.
Mewn cwlwm dan y clo,
A'i wâg resymau gwanaidd, Job 32. 11.
Disylwedd a diles,
Yn teithio mewn tywyllwch, Barn. 4. 9.
Heb oleu'r haul na'i gwres. Job. 25. 3.

25 Gofynaf i'r taenellwyr,
Sydd yma îs y rhod, Mat. 21. 25.

A oes rhyw Fiblau newydd,
Yn ddirgel yn eich cod; Hag. 1. 6.
Ac onid oes rhai newydd,
Myfi a ddyweda 'n hy Eph. 6. 19.
Na cheir mo fedydd baban,
O fewn i'n Biblau ni? Act. 14. 3.

25 Beth dal rhyw hên gasgliadau, Col. 2. 18, [21, 22.
I lanw llawer sach,
Heb ganddo yn y diwedd
Ond crygyn brwnt o grach
I ranu rhwng ei frodyr,
Yn agos ac yn mhell,
Dymunwn fod bugeiliaid 2 Cron 3. 6.
Yn cadw ymborth gwell. Diar. 10. 21.

26 Sylwch chwi, ddarllenwyr,
Am seren wermwnt fawr, Dat. 8. 10, 11.
A ddywed Ioan am dani,
A syrthiodd yma i'r llawr;
Hi chwerwodd yr holl ddyfroedd,
Ne's marw llawer un, Jer. 23. 15.
Nid oes gan rai athrawon a'r 9. 15.
O'r efengyl, ond ei llun.

27 O rhyfedd y taenellwr, Diar. 14. 8.
Na bu'sai 'n gallach gŵr,
Na myn'd i bigo cweril, Diar. 23. 11.
A chadw 'r fath ystwr!
Gwell fu'sai fod cenfigen, a 26, 21.
Yn isel dan ei dro'd,
Na 'i chwydu 'ngwyneb brodyr, Esa. 28. 8.
Mwy ganwaith fu'sai ei glôd. Jos. 6. 27.

28 Beth dâl y gwîn melusa',
A'i yfed e' pan ceir, Diar. 9. 2.
A gwenwyn yn ei waelod,
A'i gael o gwpan aur; Dat. 17. 4.
Ystyried pob darllenydd,
Ond llyfr. u'r Cymry glân, Act. 19. 19.

Heb blentyn nac etifedd, ond y n (mawr fy anrhydedd!)
A

Fe losgir bedydd baban,
I gyd yn ulw mân.

29 Maent hwy wedi digio, 2 Sam. 3. 8.
Er's dyddiau 'n chwerw iawn,
Cenfigen sy 'n eu mhynwes, Iago 3. 16.
A chweril sydd yn llawn;
Achwynant ar fedyddwyr 1 Tim. 5. 19.
Yn uchel iawn eu gwynt
O eisiau ein bod ni 'n bwyta Jos. 9. 4, 5.
O'u torthau llwydon hwynt.

30 Hauasant hâd ymryson Hab. 1. 3.
Yn uchel ar eu gwrych.
Gan feddwl yn eu calon Hos. 7. 2.
I fyn'd â'r grwn a'r rhych;
Fe all y gwyr gyfarfod Gen. 14. 17.
Rhyw un a swmbwl hîr,
Mae llawer ŷch yn blino, Gal. 6. 9.
Cyn myn'd i ben ei dir.

31 Fe gaiff y frwydr ddarfod, Ps. 140. 7.
Os llonydd têg a gawn.
Ni 'nganwn air yn mhellach, Diar. 3. 31.
Na boreu na phrydnawn;
Os gwnair rhyw rith o atteb, Gen. 45. 3.
Gan ryw un o'r groes blaid,
Ceir rhagor y tro nesaf, Jude 22.
Os gwelir anghenrhaid. 1 Cor, 9. 16.

32 Os rhaid yw canu rhagor,
'Does help ond myn'd yn mla'n Rhuf. 12.
Trwy ganol hyn o ryfel, [10.
Er poethed ydyw 'r tân, Diar. 20. 20.
Pe deuai yn fy erbyn
Ryw filoedd ddwy neu dair, Ps. 2. 6.
Ni cheisiaf fi un araf,
Ond cleddyf gloyw 'r gair. Eph. 6. 17.

D. W.

DIWEDD.

S. UNIV. COLL. SALISBURY LIBRARY S. WALES & MON.